

Arolwg Defnydd Iaith



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Annwyl

Gwnaeth cyfwelydd ymweld â'ch cartref yn ddiweddar i gynnal cyfweiliad ar gyfer Arolwg Cenedlaethol Cymru. Fe wnaeth adael un holiadur am yr iaith Gymraeg i'w llenwi gan bob siaradwr Cymraeg ar eich aelwyd.

Rydym yn awyddus i ddysgu mwy am sut mae pobl ar draws Cymru'n defnyddio'r Gymraeg. Bydd eich atebion yn cyfrannu at ein dealltwriaeth ac yn ein helpu i ddatblygu polisiau i gefnogi'r defnydd o'r Gymraeg.

Nid ydym wedi derbyn eich holiadur(on) eto. Byddem yn ddiolchgar pe gallech gwblhau a dychwelyd yr holiadur(on) amgaeedig yn yr amlen radbost cyn gynted â phosibl.

Os ydych wedi dychwelyd eich holiadur(on) yn ddiweddar, diolch yn fawr i chi am eich amser; nid oes angen i chi wneud unrhyw beth pellach.

Nid oes yn rhaid i chi gymryd rhan yn yr arolwg, ond rydym yn gobeithio y byddwch yn fodlon ein helpu i gasglu'r wybodaeth hanfodol hon.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr arolwg, cysylltwch â Llywodraeth Cymru drwy ffonio 03000 256682 neu e-bostio DatalaithGymraeg@llyw.cymru.

Diolch yn fawr i chi am eich help.

Yn gywir,

Glyn Jones

Prif Ystadegydd Llywodraeth Cymru



Mae'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi i ni yn cael ei diogelu gan y gyfraith ac yn cael ei thrin yn gyfrinachol. Caiff ei defnyddio at ddibenion ystadegol yn unig.

Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ